Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19 oed

Mawrth 2008



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben yr adroddiad | 1 |
| Cefndir | 1 |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Dewislenni yng Nghymru** | **7** |
| Beth yw dewislenni? | 7 |
| Beth yw ansawdd y dewislenni? | 7 |
| **Cynyddu dewis a hyblygrwydd trwy ddewislenni** | **9** |
| Datblygu dewislenni | 9 |
| Ehangu dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 | 11 |
| Ehangu dewisiadau addysg ôl-16 | 15 |
| Defnyddio technolegau newydd | 18 |
| **Sicrhau dewis ehangach a hyblygrwydd** | **19** |
| Arweinyddiaeth | 19 |
| Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth | 20 |
| Gwella ansawdd | 21 |
| Elfennau allweddol eraill o Lwybrau Dysgu 14-19 | 22 |

# Cyflwyniad

## Diben yr adroddiad

1 Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Elfen 2 – Dewis a Hyblygrwydd Ehangach - Llwybrau Dysgu 14-19[1]. Mae’r adroddiad yn dangos yr hyn sy’n gweithio’n dda a’r hyn y mae angen ei wneud i fodloni nodau ac amcanion menter Llwybrau Dysgu 14-19. Yn ogystal, mae’n nodi enghreifftiau o arfer dda. Daw canfyddiadau’r adroddiad o ddadansoddiad o gynlluniau datblygu blynyddol yr holl rwydweithiau 14-19[2], ymweliadau ag 11 rhwydwaith, a thystiolaeth a gafwyd yn ystod arolygiadau ardal ym Merthyr Tudful a Wrecsam.

2 Mae’r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o ddau adroddiad ganEstyn a gyhoeddwyd yn 2006 ar gymwysterau a Llwybrau Dysgu 14-19[3] ac ar gydweithio rhwng ysgolion â chweched dosbarthiadau a cholegau addysg bellach[4].

3 Yn 2008, mae Estyn yn cyhoeddi tri adroddiad arall sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed. Mae’r adroddiadau hyn yn ymdrin â gwyddoniaeth, darpariaeth iaith Gymraeg, a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Maent yn cynnwys mwy o wybodaeth sy’n ategu cynnwys yr adroddiad hwn.

## Cefndir

4 Amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymrwymiad i drawsnewid y ddarpariaeth i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn Y Wlad sy’n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2006). Y nod yw bod:

> *‘95 y cant o bobl ifanc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod ar gyfer gwaith medrau uchel neu addysg uwch erbyn 2015’*

5 Rhaid cyflawni’r trawsnewid hwn trwy Lwybrau Dysgu 14-19. Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn cynnwys cymysgedd o chwe elfen allweddol a fydd, ar y cyd, yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy’n bodloni eu hanghenion orau. Mae’r elfennau allweddol hefyd yn caniatáu i ddysgwyr gael y cymorth a’r arweiniad y mae eu hangen arnynt i gyrraedd eu potensial. Dyma’r chwe elfen allweddol:

- llwybrau dysgu unigol i fodloni anghenion pob dysgwr;
- dewis ehangach a hyblygrwydd o ran rhaglenni a dulliau o ddysgu;
- craidd dysgu sy’n rhedeg o 14 hyd 19 oed lle bynnag y bydd pobl ifanc yn dysgu;

[1] Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006
[2] Grwpiau strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal awdurdod lleol yw rhwydweithiau 14-19, a sefydlwyd fel rhan o fenter Llwybrau Dysgu 14-19.
[3] http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_17__14to19_Learning_pathways_2005_2006.pdf
[4] http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_18_Collaboration_between_schools_with_sixth_forms_and_FE_institutions_May_2006.pdf

- cefnogaeth gan hyfforddwr dysgu;
- mynediad at gymorth personol; a
- chyngor ac arweiniad diduedd ynghylch gyrfaoedd.

6 Nod menter Llwybrau Dysgu 14-19 yw annog mwy o bobl ifanc i gyrraedd eu potensial er mwyn iddynt fod yn fwy parod ar gyfer byd gwaith, ac yn ddinasyddion mwy deallus a gweithredol. Ei nod yw gwneud hyn trwy gyfrannu at welliant yng nghyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n ennill cymwysterau gwerth chweil, sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach mewn addysg a hyfforddiant, ehangu mynediad, hyrwyddo cyfle cyfartal a chefnogi *'Ymestyn Hawliau'*[5].

7 Ym mis Gorffennaf 2004, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad ar Lwybrau Dysgu 14-19 yn *'Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau'*. Ym mis Ebrill 2006, cyhoeddodd *'Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II'*. Roedd hyn yn gwella ac yn adeiladu ar yr arweiniad gwreiddiol, ac yn cynnwys y cynllun gweithredu a ddilynodd adroddiad y Dirprwy Weinidog ar Lwybrau Dysgu 14-19 ym mis Tachwedd 2005.

8 Erbyn 2010, fan bellaf, bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw creu isadeiledd dysgu newydd yng Nghymru. Bydd hwn yn tynnu ar adnoddau ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant i gydweithio i ddarparu Llwybrau Dysgu 14-19 i ddysgwyr. Disgwylir i'r partneriaid ym mhob rhwydwaith 14-19 lleol nodi ystod lawn y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ardal mewn dewislen. Dylai dysgwyr fod yn gallu dewis agweddau ffurfiol ar eu llwybrau dysgu personol trwy'r ddewislen.

9 Erbyn mis Medi 2007, disgwylir i rwydweithiau 14-19 fod wedi dadansoddi dewisiadau presennol a datblygu dewislenni arloesol a chydweithredol ar gyfer eu hardaloedd. Felly, erbyn 2008, dylai'r dewislenni:

- gynnwys cyfleoedd ym mhob un o'r meysydd[6] dysgu;
- dangos dewis cynyddol i ddysgwyr, yn arbennig mewn dewisiadau mwy ymarferol a chymhwysol; ac
- osgoi dyblygu darpariaeth.

10 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflwyno Mesur Cynulliad ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19[7]. Bydd y Mesur yn cynnwys hawl i ddysgwyr ddilyn ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, a bydd yn ei wneud yn ddyletswydd i ddarparwyr gydweithio.

---

[5] Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru yw Ymestyn Hawliau.

[6] Mae pum maes: mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg; busnes a rheoli; gwasanaethau i bobl; y celfyddydau creadigol a diwylliant; a'r dyniaethau ac ieithoedd.

[7] Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008. Dogfen ymgynghori 046/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

11 Mae'n debygol y bydd adroddiadau Beecham[8], Leitch[9] ac Webb[10] yn dylanwadu ar ddatblygiad menter Llwybrau Dysgu 14-19. Mae Beecham yn nodi bod angen mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a rhwng y rheiny sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Er bod Beecham yn trafod awdurdodau lleol yn bennaf, mae hefyd yn cyfeirio at ddarpariaeth ôl-16 fel maes lle mae angen rhesymoli. Mae Adroddiad Leitch yn nodi ei fod yn hanfodol i'r system addysg gynhyrchu mwy o bobl â lefel uwch o fedrau i fodloni anghenion diwydiant a chyflogwyr y dyfodol. Mae Adroddiad Webb yn galw am 'newid radical' mewn addysg a hyfforddiant 14 i 19 ac yn nodi 'na fydd mân ailaddasiadau yn ddigonol'. Yn benodol, byddai eu hargymhellion ynghylch fframweithiau cynllunio a chomisiynu newydd a chyflwyno consortia, o'u derbyn, yn cael effaith fawr a phellgyrhaeddol ar bob darparwr.

[8] Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd 2006
[9] Prosperity for All in a Global Economy: World Class Skills 2006
[10] Addewid a Chyflawniad 2007

## Prif ganfyddiadau

### Dewislenni a dewis

12 Mae'r dewis o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr yn cynyddu. Yr enghraifft orau yw lle mae grwpiau o ysgolion a cholegau wedi cynllunio darpariaeth gyda'i gilydd ac wedi sicrhau bod yr ystod lawn ar gael i bob dysgwr yn eu sefydliadau. Nid oes modd i ysgolion ariannu'r ystod hon o ddarpariaeth ar eu pennau eu hunain.

13 Er hynny, nid oes gan y rhan fwyaf o ddysgwyr hyblygrwydd i ddewis o'r ystod lawn o fathau o gyrsiau sydd ar gael yn eu hardal. Mae eu cyfleoedd yn dibynnu'n ormodol ar yr hyn a gynigir gan y darparwr y maent yn ei fynychu.

14 Yng nghyfnod allweddol 4, cafwyd cynnydd yn nifer a math y cyrsiau galwedigaethol a gynigir, yn bennaf ar lefel mynediad neu lefel 1. Mae cynllun peilot y Llwybrau Dysgu yn y Gwaith yn gweithio'n dda, ac mae dysgwyr yn hoff ohono. Fodd bynnag, ni chafwyd fawr o gynnydd mewn cyrsiau i ddysgwyr mwy galluog, yn arbennig cyrsiau galwedigaethol ar lefel 2. Mae hyn yn cyfyngu ar ddewis y dysgwyr mwy galluog a hefyd yn rhwystro dilyniant i'r rhai sy'n cwblhau cyrsiau lefel isel ym Mlwyddyn 10.

15 Mae llawer o ysgolion o hyd yn ystyried bod cyrsiau galwedigaethol yn addas i ddysgwyr llai galluog yn unig. Yn ogystal, maent yn ansicr i ba raddau y mae cyrhaeddiad yn y cyrsiau hyn yn cael ei gofnodi mewn dangosyddion perfformiad sydd ar gael i'r cyhoedd, ac felly maent yn amharod i'w cynnig am na fyddant yn cyfrannu at ddangosyddion perfformiad allweddol, fel pum gradd TGAU A* i C.

16 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig dewisiadau sy'n ceisio bodloni dyheadau Llwybrau Dysgu 14-19. Mae llawer o ddewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 yn tynnu ar syniad blaenorol o'r hyn yw cwricwlwm eang a chytbwys. Nod y dull hwn yw cynnig cyrsiau mewn nifer o 'feysydd profiad', fel y 'dyniaethau', 'technoleg' a'r 'celfyddydau'. Mae'r dull hwn yn arwain at ffurfio grwpiau o ddewisiadau sy'n cyfyngu dewis dysgwyr i'r pynciau oddi mewn iddynt.

17 Ym maes addysg ôl-16, mae ystod y dewisiadau sydd ar gael ar draws rhwydweithiau yn cynyddu'n sylweddol. Mae ystod eang iawn o ddewisiadau addysg gyffredinol a galwedigaethol sy'n cynnwys pob maes a lefel ym mhob ardal. Gall pob dysgwr bron ddewis cyrsiau sy'n caniatáu iddynt ddilyn eu llwybr dysgu dewisedig ar yr amod eu bod yn barod i symud rhwng sefydliadau. Cafwyd y rhan fwyaf o ehangu cyfyngedig ar gyrsiau ym maes addysg ôl-16 mewn perthynas â chyrsiau lefel 2 newydd ar gyfer dysgwyr o allu canolig neu allu is.

18 Mae llawer o ysgolion yn annog dysgwyr i barhau â'u hastudiaethau yn y chweched dosbarth, ac nid ydynt yn rhoi gwybodaeth eglur a diduedd iddynt am y dewisiadau sydd ar gael iddynt gyda darparwyr eraill. Mae gan ddysgwyr sy'n penderfynu aros mewn chweched dosbarth bach ddewis cyfyngedig a chul o gyrsiau, a nifer fach o gyfleoedd a roddir iddynt gymysgu cyrsiau addysg gyffredinol â chyrsiau galwedigaethol.

### Rhwydweithiau a chydweithio

19 Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae rhwydweithiau wedi gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu am y cyrsiau a gynigir yn eu hardal a'u cyflwyno mewn dewislen. Yn gyffredinol, mae rhwydweithiau yn defnyddio dewislenni fel erfyn cynllunio, ond nid ydynt yn gwneud digon i gynyddu mynediad dysgwyr at y dewisiadau sydd ar gael mewn rhwydwaith, na'u gwybodaeth am y rhain.

20 Y rhwydweithiau mwyaf effeithiol yw'r rhai lle mae gan gydlynwyr statws ac awdurdod, a lle mae'r rhwydwaith yn gysylltiedig â'r cyrff strategol allweddol yn yr ardal sydd â mynediad at gyllid.

21 Mae cystadleuaeth uniongyrchol rhwng darparwyr ôl-16 yn parhau'n gyffredin. Heblaw am rai eithriadau, mae cydweithio yn rhywbeth ymylol ac nid yw'n effeithio ar batrymau astudio'r brif ffrwd. Yn rhan fwyaf yr achosion ym maes ôl-16, ychydig o gydweithio yn unig a geir, ac mae'n effeithio ar ychydig o ddysgwyr yn unig ar ystod gul o gyrsiau.

22 Mae rhai ysgolion wedi cysoni eu hamserlenni ag amserlenni darparwyr eraill er mwyn ehangu nifer y cyrsiau a chynyddu hyblygrwydd astudio i ddysgwyr. Mae ysgolion nad ydynt yn cysoni eu hamserlenni yn ei chael yn anodd elwa ar drefniadau cydweithio.

23 Mae nifer fach ond cynyddol o drefniadau cydweithio ym maes ôl-16, y mae rhai ohonynt wedi'u sefydlu ers amser. Mae'r rhain yn cynnwys cwricwlwm ôl-16 cyffredin mewn grŵp o ysgolion, ac mae'r enghreifftiau gorau yn cynnwys colegau hefyd. Mae nifer fach ohonynt yn cynnwys darparwyr dysgu yn y gwaith hefyd.

24 Er y cafwyd llawer o ddatblygiadau diddorol a gwerthfawr iawn o ran ehangu dewis a hyblygrwydd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, yn aml, bu hyn o ganlyniad i gyllid grant yn hytrach na chyllid y brif ffrwd. Mae'n ansicr sut y gellir cynnwys y math hwn o ddarpariaeth wedi i'r grantiau ddod i ben.

### Arweinyddiaeth a sicrwydd ansawdd

25 Nid oes gan arweinwyr darparwyr weledigaeth eglur bob tro o sut y gallant ddatblygu'r agenda Llwybrau Dysgu 14-19. Yn benodol, mae gormod ohonynt yn rhoi diffyg sylw i hawliau dysgwyr neu'r angen i ddysgwyr gynllunio a chyflawni eu llwybrau dysgu unigol.

26 Mae cydweithio neu weithio mewn partneriaeth yn galw am fedrau arwain newydd ac anghyfarwydd. Mae tyndra rhwng yr angen i gynllunio ar y cyd ar draws ardal a'r trefniadau cyllid a rheoli sy'n canolbwyntio ar ddarparwyr annibynnol, unigol. Bydd rhwydweithiau yn ei chael yn anodd cynnig mwy o ddewis gyda llai o arian, o ganlyniad i gofrestri yn gostwng, heb resymoli'r ddarpariaeth a sicrhau gweithio gwell mewn partneriaeth .

27 Nid oes gan rwydweithiau systemau eglur a chynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd sy'n llunio casgliadau ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd yr holl ddarpariaeth yn eu hardal. Dylai rhwydweithiau geisio datblygu'r ddarpariaeth sy'n dda ac ymyrryd i fynd i'r ag unrhyw tanberfformio. Mae'n debygol y bydd hyn yn anodd i rwydweithiau nad oes ganddynt unrhyw bwerau i gyfarwyddo darparwyr.

## Argymhellion

Er mwyn ehangu dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19:

**dylai darparwyr:**

A1 gysoni eu hamserlenni ag amserlenni darparwyr eraill, ac ystyried y bylchau mewn dewislenni lleol wrth gynllunio eu darpariaeth i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad cyfartal at eu hawl;

A2 rhoi gwybodaeth eglur, cywir a diduedd i ddysgwyr am y dewisiadau sydd ar gael iddynt, yn arbennig dysgwyr 16 oed;

A3 cynyddu ystod y cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i bob dysgwr, yn arbennig ar lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4 a lefel 3 ym maes ôl-16; a

A4 datblygu medrau arweinyddiaeth wrth rwydweithio a thrafod i hwyluso cydweithio;

**dylai rhwydweithiau:**

A5 sicrhau bod gan bob darparwr, staff, dysgwr a rhiant ddealltwriaeth eglur o Lwybrau Dysgu 14-19 a'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr;

A6 archwilio dulliau i ennill ymrwymiad llawn darparwyr dysgu yn y gwaith;

A7 cynllunio ar gyfer defnyddio cyllid y brif ffrwd i gefnogi datblygu dewislenni effeithiol;

A8 cysylltu datblygiad dewislenni â dysgu gydol oes a datblygiadau economaidd yn eu hardal; a

A9 datblygu trefniadau sicrwydd ansawdd sy'n caniatáu gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwerth cymharol am arian cyrsiau; a

**dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A10 ddatblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod gan ddarparwyr, dysgwyr a rhieni wybodaeth well am ddiben Llwybrau Dysgu 14-19 a dewislenni.

## Dewislenni yng Nghymru

### Beth yw dewislenni?

28 Dewislenni cydweithio yw prif gydran ail elfen allweddol Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r elfen allweddol hon yn ymwneud ag ymestyn dewis a hyblygrwydd mewn dewisiadau addysg a hyfforddiant i ddysgwyr. Mae dewislen yn cynnwys cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy ac sy'n ffurfio elfen ffurfiol llwybr dysgu unigol dysgwr.

29 Dylai dewislen sicrhau bod pob dysgwr rhwng 14 a 19 oed yn ymwybodol o ystod lawn y dewisiadau sydd ar gael mewn ardal, a bod ganddynt fynediad atynt. Dylai dysgwyr allu dewis o ystod o ddewisiadau o'r pum maes, a gallu dewis cyfuniad o gyrsiau addysg gyffredinol a galwedigaethol o lefel mynediad hyd at lefel 3 ym mhob un o'r meysydd hyn.

30 Rhaid i ddarparwyr dysgu gydweithio ar holl agweddau'r ddewislen ar draws y Rhwydwaith 14-19 er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael yr hawl hon a gwneud y defnydd gorau o gyllid sy'n bodoli eisoes a chyllid newydd. Mae'n debygol y bydd y ddarpariaeth lawn a gynigir yn cynnwys dewisiadau sydd ar gael ym mhob darparwr, ynghyd â rhai sydd ar gael mewn un darparwr neu fwy yn yr ardal, neu hyd yn oed y tu allan i'r ardal.

31 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i ddarparwyr annog dysgwyr i geisio'r dewisiadau sy'n cyd-fynd orau â'u hanghenion, hyd yn oed os yw'r dewisiadau hynny wedi'u lleoli mewn darparwr arall. Dylai darparwyr roi'r cyngor, y wybodaeth a'r help y mae eu hangen ar ddysgwyr i gael mynediad at yr opsiwn y maent wedi'i ddewis a pharhau'n llwyddiannus ar y llwybr hwnnw.

### Beth yw ansawdd y dewislenni?

32 Bob blwyddyn, mae rhwydweithiau 14-19 yn llunio Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (CDRhB) sy'n cynnwys holl agweddau Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau strategol y rhwydwaith. Mae'n cynnwys y ddewislen a chynllun gweithredu i ddangos sut y bydd y rhwydwaith yn bodloni'r amcanion a nodwyd. Yn 2007-2008, cwblhaodd rhwydweithiau eu pedwerydd CDRhB, ac maent yn paratoi'r pumed, ar gyfer 2008-2009, erbyn Mawrth 2008.

33 Mae pob CDRhB yn cynnwys dewislen ac, yn gyffredinol, mae ansawdd y rhain wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae pob dewislen yn cynnwys dewisiadau cyffredinol a galwedigaethol, yn ogystal ag ystod helaeth o gymwysterau ffurfiol ac anffurfiol. Mae pob un yn dangos y ddarpariaeth mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, ac mae'r rhan fwyaf yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth dysgu yn y gwaith. Mae mwyafrif y dewislenni yn nodi cyrsiau o bob un o'r pum maes, o lefel mynediad i lefel 3 ac yn dangos, mewn termau eang, y llwybrau dilyniant trwyddynt. Mae tua hanner y rhain yn nodi darpariaeth yn seiliedig ar ffydd, ond dim ond rhai ohonynt sy'n nodi trefniadau dwyieithog.

34 Mae diffygion ym mhob dewislen o hyd. Yn benodol, nid ydynt yn nodi'n eglur ymhle mae bylchau a dyblygu. Yn ogystal, nid yw llawer ohonynt yn nodi'r ddarpariaeth a gyflwynir trwy drefniadau partneriaeth neu gydweithio. Nid yw llawer o ddewislenni

yn cynnwys unrhyw fanylion defnyddiol ar bynciau neu gyrsiau unigol, nac yn dangos ymhle y gellir cael y manylion hyn. Nid yw'r dewislenni hyn yn dangos a yw'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnod allweddol 4 neu ddysgwyr ôl-16. Nid yw rhai dewislenni yn cynnwys cyfleoedd yn y sector dysgu yn y gwaith.

35 Er bod dewislenni yn rhestri ystod eang o gyrsiau, nid yw'n golygu eu bod yr un mor hygyrch i bob dysgwr. Mae llawer yn dibynnu ar a oes trefniadau, fel amserlenni cyffredin a thrafnidiaeth, yn bresennol er mwyn i ddysgwyr allu dewis o'r holl ddewisiadau sydd ar gael.

36 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth darparwyr o ddiben a chynnwys dewislenni yn amrywio'n sylweddol oddi mewn i rwydweithiau. Nid yw llawer o staff o fewn darparwyr yn ymwybodol o'r ddewislen, ac nid yw'r rhan fwyaf yn rhoi digon o ystyriaeth iddynt wrth gynllunio eu darpariaeth eu hunain.

37 Ar hyn o bryd, mae mynediad dysgwyr at y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dewislenni yn gyfyngedig. Dim ond un rhwydwaith sydd wedi gosod ei ddewislen ar wefan er mwyn i ddysgwyr allu ei weld. Yn gyffredinol, mae rhwydweithiau yn defnyddio'r ddewislen fel erfyn cynllunio, ac nid ydynt yn gwneud digon i gynyddu gwybodaeth dysgwyr am y dewisiadau sydd ar gael mewn rhwydwaith a'u mynediad at y dewisiadau hyn. Yn ystod 2006-2007, rhoddwyd prawf mewn pedair ysgol ar brosiect Gyrfa Cymru Ar-lein, sy'n cynnwys y wybodaeth mewn dewislen ac sy'n caniatáu i ddysgwyr gael mynediad ati. Erbyn hyn, mae hyn yn cael ei gyflwyno yn raddol ledled Cymru, a dechreuodd tua hanner yr ysgolion uwchradd yng Nghymru gymryd rhan ym mis Medi 2007. Mae gan y gwaith hwn botensial i helpu dysgwyr gael mwy o fynediad at ddewislenni, fel y dangosir yn yr enghraifft ganlynol:

**Astudiaeth achos 1**

O ganlyniad i ymgysylltiad un ysgol â'r prosiect peilot, cyflwynodd system ddewis ddi-bapur i ddysgwyr Blwyddyn 9. Gall dysgwyr ddewis eu pynciau ar-lein, trwy wefan beilot Llwybrau Dysgu 14-19 GyrfaCymru.com. Gall dysgwyr fewngofnodi i'r wefan a gweld yr holl wybodaeth y mae ei hangen i benderfynu pa gyrsiau sy'n eu gweddu orau. Gallant gael mynediad at y wybodaeth hon ar unrhyw bryd, gan gynnwys yn eu cartrefi. Mae'r wybodaeth yn cynnwys pynciau dewisol sydd ar gael yn yr ysgol, mewn ysgolion cyfagos, ac yn y coleg addysg bellach lleol. O ganlyniad, gall dysgwyr gael mynediad hawdd at ystod eang iawn o wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Yn ei thro, mae gan yr ysgol fynediad at y dewisiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i gynllunio cwricwlwm cyfnod allweddol 4 sy'n bodloni diddordebau ac anghenion dysgwyr.

## Cynyddu dewis a hyblygrwydd trwy ddewislenni

### Datblygu dewislenni

38 Mae llawer o enghreifftiau addawol o ehangu dewisiadau yn dod i'r amlwg wrth i rwydweithiau ddechrau cynyddu'r cydweithio rhwng ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith.

39 Mae rhai rhwydweithiau wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth sefydlu'r syniad o hawl y dysgwr. Erbyn hyn, mae pawb yn gweithio ar hyn i ryw raddau wrth ddisgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi ei deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol, sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth o egwyddor hawl y dysgwr, a'r ymrwymiad iddi, yn amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr a rhwydweithiau. Mae gan yr ychydig rwydweithiau sydd wedi bod yn ystyried hawl ers cryn amser fanteision sylweddol. Yn yr achosion hyn, mae darparwyr unigol, yn arbennig ysgolion, yn dechrau ystyried pa effaith y bydd yr hawl yn ei chael ar yr hyn maent yn ei gynnig i'w dysgwyr eu hunain. Dylai pob dysgwr allu cael mynediad at yr hawl, ni waeth pa ddarparwr y maent yn ei fynychu. Mae caniatáu i hyn ddigwydd yn her fawr i rwydweithiau a darparwyr unigol ill dau. Ar hyn o bryd, nid oes gan rhan fwyaf y dysgwyr gyfle cyfartal i gael mynediad at ystod ddigonol o fathau gwahanol o gyrsiau. Mae eu cyfleoedd yn dibynnu'n ormodol ar yr ysgol y maent yn ei mynychu. Mewn nifer o rwydweithiau, mae cydlynwyr yn rhwystredig oherwydd amharodrwydd rhai ysgolion i gyfrannu at ehangu dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cydlynwyr hyn o'r farn bod y rheoliadau sydd ar ddod, sy'n nodi hawl y dysgwr, yn angenrheidiol er mwyn sicrhau ymrwymiad ysgolion amharod.

40 Mae gan aelodau rhai rhwydweithiau syniad rhesymol o dda o'r hyn y gallai hawl y dysgwr fod ar gyfnod allweddol 4 ac ôl-16, ac maent wedi dechrau cynllunio yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae ychydig o ansicrwydd o hyd o'r hyn a olygir gan gwrs 'galwedigaethol' a faint o waith sy'n debygol o gael ei ddosbarthu'n 'gwrs'. Mae rhwydweithiau'n rhagweld y bydd arweiniad oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn egluro hyn. Beth bynnag fo'r fanyleb, mae'n annhebygol y bydd modd i unrhyw ysgol, hyd yn oed y rhai mwyaf, ddarparu isafswm y cyrsiau sy'n rhan o'r hawl ar eu pennau eu hunain. Er enghraifft, mae gan un ysgol fawr iawn, yr ymwelwyd â hi fel rhan o'r arolwg, fwy na 1,800 o ddysgwyr, gan gynnwys dros 500 yn y chweched dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â'r cyrsiau craidd, mae'r ysgol yn cynnig 27 o ddewisiadau, gan gynnwys saith dewis galwedigaethol. Ar gyfnod ôl-16, mae'r ysgol yn cynnig 32 o gyrsiau safon Uwch a chyrsiau mewn chwe maes galwedigaethol. Fodd bynnag, nid oes modd i'r ysgol gynnig y rhain ar ei phen ei hun am ei bod yn cydweithio â choleg addysg bellach cyfagos i gynnig rhai o'r cyrsiau hyn. Mae ysgol fawr arall, a chanddi fwy na 1,300 o ddysgwyr a mwy na 260 yn y chweched dosbarth, yn gweithio mewn partneriaeth â dwy ysgol arall a choleg i gynnig mwy na 40 o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys 15 o gyrsiau galwedigaethol, ac mae'n cynnig 30 o gyrsiau safon Uwch a 17 o gyrsiau galwedigaethol ar gyfnod ôl-16.

41 Y prif weithgaredd wrth ehangu'r cwricwlwm 14-19 yn ystod y ddwy flynedd diwethaf fu cynyddu nifer a math y cyrsiau galwedigaethol. Cafwyd y rhan fwyaf o'r ehangu

hwn mewn cyrsiau a osodir ar lefel mynediad neu lefel 1 yng nghyfnod allweddol 4 neu ar lefel 2 ar gyfnod ôl-16. Mewn ychydig iawn o achosion yn unig yr ehangwyd cyrsiau galwedigaethol i ddysgwyr mwy galluog. Ychydig o eithriadau sydd i hyn. Er enghraifft, mewn un rhwydwaith, caiff dysgwyr mwy galluog gyfle i gymryd dau gwrs TGAU ychwanegol mewn cydweithrediad â'r coleg lleol. Mae rhwydwaith arall yn caniatáu i ddysgwyr gymryd cyrsiau ar ôl ysgol sydd naill ai'n ychwanegol neu'n gyrsiau sydd, fel arfer, yn denu nifer fach o ddysgwyr. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr gymryd rhai cymwysterau'n gynnar neu symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch, fel lefelau AS yng nghyfnod allweddol 4.

42 Yn aml, bydd cyrsiau galwedigaethol yn ddrutach ac yn anoddach i'w darparu na phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae un rhwydwaith yn amcangyfrif eu bod, yn aml, deirgwaith yn ddrutach i'w darparu na sesiynau traddodiadol yn y dosbarth, fel cyrsiau Saesneg, mathemateg a hanes. Rhaid i gyrsiau galwedigaethol gael eu haddysgu gan arbenigwyr a hyfforddwyd yn dda, a'u cyflwyno mewn mannau ag offer addas sy'n bodloni safonau'r diwydiant. Mae'n annhebygol y caiff y math hwn o ddarpariaeth ei gynnig gan ysgolion sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, roedd dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 o chwe ysgol yn cymryd rhan mewn gwers arlwyo mewn cyfleusterau arbennig a oedd ar gael yn yr ysgol honno'n unig, ac a addysgwyd gan aelod o staff o goleg addysg bellach cyfagos.

43 Er bod rhan fwyaf yr ysgolion yn ymwybodol bod cyrsiau galwedigaethol yn ddrutach i'w darparu, ychydig iawn ohonynt sy'n dadansoddi costau darparu cyrsiau mewn pynciau cyffredinol neu bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn enwedig y rhai sy'n darparu ar gyfer ychydig o ddysgwyr. Er enghraifft, mewn un ysgol sydd wedi cynnal y dadansoddiad hwn, roedd y costau'n amrywio rhwng ychydig o dan £100 y dysgwr ar gyfer yr holl ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a oedd yn cymryd mathemateg, i fwy na £6,000 i'r un dysgwr a oedd yn cymryd Ffrangeg lefel A.

44 Mae lleiafrif o ysgolion yn amharod i ehangu eu darpariaeth alwedigaethol ar gyfnod allweddol 4 am eu bod o'r farn y gall effeithio'n andwyol ar yr amgyffrediad o'u perfformiad. Mae ysgolion yn bwyllog iawn ynghylch sut caiff cyrhaeddiad yn y cyrsiau hyn ei gofnodi mewn dangosyddion perfformiad cyhoeddus, yn arbennig ar y ffurflen RE2[11]. Mae teimlad eang o hyd y bydd arwyddocâd y dangosydd mewn perthynas â chyfran y dysgwyr sy'n ennill pum TGAU ar raddau A* i C yn amharu ar ddatblygiadau. Y rheswm am hyn yw nad yw rhai cyrsiau galwedigaethol wedi'u cynnwys yn y dangosydd hwn. Bydd datblygu'r sgôr pwyntiau ehangach a'r dangosydd Trothwy Lefel 2[12] yn gwneud rhywfaint i liniaru'r pryder hwn.

45 Mae llawer o ysgolion yn parhau i fod â chanfyddiad cul o'r angen am Lwybrau Dysgu 14-19, ac yn aml ni fyddant yn gweld galw am fwy o gyrsiau galwedigaethol, ac eithrio ar gyfer nifer fach o ddysgwyr llai galluog a/neu ddysgwyr wedi'u dadrithio. Yn gyffredinol, mae gormod o ysgolion yn parhau i ystyried dysgu galwedigaethol yn rhywbeth i ddysgwyr llai galluog neu ddysgwyr wedi'u dadrithio.

[11] Mae ffurflen RE2 yn cynnwys crynodeb o wybodaeth arholiadau, sy'n benodol i bob ysgol, a gasglwyd gan CBAC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[12] Cynhwysir dangosydd Trothwy Lefel 2 yn ffurflen RE2 2007 fel dangosydd peilot, gyda'r bwriad o'i roi ar waith o 2008 ymlaen. Mesur o sawl cymhwyster ar lefel 2 sy'n gyfwerth â 5 TGAU ar raddau A* i C yw'r dangosydd Trothwy Lefel 2.

46 Mae llawer o rwydweithiau wedi darparu cyfleusterau arbenigol newydd lle gellir cynnal dysgu galwedigaethol. Ceir yr enghreifftiau gorau o hyn lle mae grwpiau o ysgolion a choleg wedi cynllunio'r ddarpariaeth hon i fod ar gael i bob dysgwr yn eu sefydliadau, fel y dangosir isod.

**Astudiaeth achos 2**

O ganlyniad i weithio mewn partneriaeth, defnyddiodd un ysgol a'i hysgolion a'i choleg partner gyllid grant i wella adeiladau ac offer yr ysgol ar gyfer peirianneg, gwaith amlgyfrwng, y celfyddydau perfformio, a chwaraeon a hamdden. Mae'r ddarpariaeth hon ar gael i'r bartneriaeth, ac mae gan yr ysgol, yn ei thro, fynediad at ddarpariaeth newydd yn ei hysgolion partner, er enghraifft, ym meysydd adeiladu a therapi gwallt a harddwch. Mae gan dair ysgol arall mewn rhwydwaith arall oll gyfleusterau arbenigol gwahanol sydd, ar y cyd, yn darparu ar gyfer adeiladu, gwallt a harddwch, ac iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ehangu dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4

47 Cafwyd cynnydd yn ystod y cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi esblygu o'r hyn a oedd yn cael ei adnabod yn y gorffennol yn 'gwricwlwm amgen', lle cynlluniwyd y ddarpariaeth i fodloni anghenion nifer gymharol fach o ddysgwyr a oedd yn annhebygol o gyrraedd eu potensial trwy barhau â'r dewisiadau traddodiadol a oedd ar gael mewn ysgolion. Diben ehangu'r cyrsiau hyn fu, yn bennaf, bodloni anghenion nifer fwy o ddysgwyr isel eu gallu a gallu canolig. Mae ysgolion o'r farn y bydd y dysgwyr hyn yn gweld bod cyrsiau galwedigaethol yn fwy gwerthfawr. Mae hyn wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer y cyrsiau, a ddarperir yn bennaf trwy gydweithio, a gyflwynwyd ar lefel mynediad neu lefel 1. Trwy wneud hyn, mae rhwydweithiau a darparwyr yn cynnig cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig a chanddynt lwybrau dilyniant a ddiffinnir yn eglur at astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae llawer o ysgolion yn dechrau ehangu'r ystod hon ar eu pennau eu hunain, ac ond yn ceisio darpariaeth gydweithredol oddi wrth y rhwydwaith pan fyddant yn canfod nad oes modd iddynt fynd ymhellach ar eu pennau eu hunain. Yn aml, yr ysgolion sy'n amharod i dderbyn y syniad o hawl i ddysgwyr, neu'r angen i weithio mewn partneriaeth ag eraill, yw'r rhain.

48 Mae nifer o ysgolion yn newid patrwm eu dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 mewn ymateb i Lwybrau Dysgu 14-19. Fodd bynnag, mae llawer o ddewisiadau yng nghyfnod 4 o hyd yn cael eu dylanwadu gan syniad blaenorol o'r hyn sy'n cyfrif yn gwricwlwm eang a chytbwys. Nod y dull hwn yw cynnig cyrsiau mewn nifer o 'feysydd profiad' fel y 'dyniaethau', 'technoleg' a'r 'celfyddydau'. Arweiniodd y dull hwn at ffurfio grwpiau o ddewisiadau ar gyfer y meysydd profiad hyn lle'r oedd dewis y dysgwr wedi'i gyfyngu i'r pynciau o'u mewn. Fodd bynnag, gydag amser, disodlwyd y syniad hwn gan ofynion newydd cwricwlwm cyfnod allweddol 4, fel y craidd datblygol, a chyflwyno pynciau newydd. Dim ond lleiafrif o ysgolion sydd wedi mabwysiadu system ddewis sy'n bodloni'n well ddyheadau Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r ysgolion hyn o'r farn bod y Craidd Dysgu, gan gynnwys y gofynion statudol, erbyn hyn yn cynnig y profiadau cyffredin ar gyfer pob dysgwr, ac y dylai'r dewisiadau fod ar gael i ehangu dewis a hyblygrwydd, ac y dylent fod, cyn belled ag y bo modd, yn anghyfyngedig. Mae un ysgol yr ymwelwyd â hi yn cyflwyno'r farn hon am

ddewisiadau i rieni yn adran 'trosolwg o'r cwricwlwm' ei phrosbectws. Mae'n nodi'r profiad craidd ar gyfer pob dysgwr, ac yna'n rhestru nifer fawr y cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol a gynigir gyda'r testun canlynol:

> *'Caiff blociau o ddewisiadau eu creu yn dilyn dewis anghyfyngedig cychwynnol o'r pynciau a gynigir. Cynigir arweiniad eglur i ddysgwyr ar sail eu cyraeddiadau blaenorol, potensial ar gyfer y dyfodol, targedau a barn broffesiynol er mwyn gwneud dewisiadau priodol a boddhaol'.*

49 Mae'r ysgol hon, felly, yn cynnig dewisiadau sy'n caniatáu i ddysgwyr ddewis cyrsiau priodol o'r ddewislen eang. Dim ond ar ôl i ddysgwyr wneud y dewis cychwynnol hwn y bydd yr ysgol yn llunio ei grwpiau o ddewisiadau. Mae'r ysgol yn pwysleisio bod yn rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r llwybrau dilyniant posibl, ac mae'n rhybuddio yn erbyn arbenigo yn rhy gynnar. Er gwaethaf nifer fawr y cyrsiau a'r dysgwyr yn yr ysgol, gall bron pob dysgwr ddilyn y cyrsiau maent yn dymuno. Mae ysgol arall yn cyflwyno'r pynciau a gynigir yng nghyfnod allweddol 4 mewn parthau. Mae'r wybodaeth a gyflwynir i ddysgwyr yn dangos lefel y cyrsiau, y llwybrau dilyniant y maent yn arwain atynt, a'r meysydd gwaith a/neu yrfaoedd y gallant eu cefnogi. Mae gan ysgol arall ddewis pwrpasol sy'n cynnwys yr holl gyrsiau galwedigaethol a gynigir, er mwyn i bob dysgwr allu cael mynediad atynt. I'r gwrthwyneb i'r tair enghraifft hon, mae ysgol arall yn parhau â'r dewisiadau cyfyngedig, sy'n golygu bod llawer o ddysgwyr yn anfodlon nad oes modd iddynt gymryd y cyrsiau roeddent yn eu dymuno o ganlyniad i strwythur y dewisiadau.

50 Mae llawer o enghreifftiau o arfer dda yn y dewislenni datblygu yng nghyfnod allweddol 4.

**Astudiaeth achos 3**

Mewn un rhwydwaith, mae cydweithio'n cael ei ddatblygu rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach yn un o nifer y clystyrau a sefydlwyd. Mae ysgolion wedi cytuno ar y diwrnodau y gellir cynnal y gweithgareddau hyn ar y cyd, sy'n para am ddiwrnod cyfan. Fel arfer, byddant yn cynnwys dau floc dewis traddodiadol ac yn cymryd diwrnod cyfan bob wythnos. Gall dysgwyr ddewis o ystod eang o feysydd galwedigaethol, er bod y rhan fwyaf o'r rhain ar lefel mynediad neu lefel 1. Cynigir pynciau gwahanol mewn ysgolion gwahanol yn y bartneriaeth, yn dibynnu ar argaeledd cyfleusterau arbenigol, ac mae dysgwyr yn teithio rhwng safleoedd.

**Astudiaeth achos 4**

Mewn rhwydwaith arall, mae ysgolion a'r coleg addysg bellach lleol wedi sefydlu prynhawn lle gall dysgwyr ddilyn nifer o gyrsiau galwedigaethol, ar lefel mynediad neu lefel 1 yn bennaf, ac ychydig o gyrsiau TGAU. Mae'r cyrsiau TGAU ar gyfer dysgwyr mwy galluog sy'n gallu dilyn un pwnc ym Mlwyddyn 10 ac un arall ym Mlwyddyn 11. Yn ogystal, mae modd i ddysgwyr yn y rhwydwaith hwn gymryd ieithoedd tramor modern ychwanegol mewn sesiynau cyfnos.

51 Yn yr enghreifftiau uchod, bu'n rhaid i ysgolion gytuno i ryw raddau ar eu hamserlenni a'u cwricwlwm. Maent wedi cytuno ar ddiwrnod penodol neu ran o ddiwrnod, bore

neu brynhawn fel arfer, pan fo modd cynnal gweithgareddau ar y cyd. Mewn rhai rhwydweithiau, mae'r broses hon wedi mynd hyd yn oed ymhellach, a chafwyd symud tuag at rannu amserlen gyffredin.

**Astudiaeth achos 5**

Mewn un rhwydwaith, mae pob ysgol wedi cytuno ar yr un fformat sylfaenol ar gyfer y cwricwlwm, ar sail cylch amserlen 50 cyfnod bob pythefnos, patrwm cyffredin i'r diwrnod, gyda thair gwers un awr yn y bore a dwy yn y prynhawn, ac amserau cyffredin i'r diwrnod.

52 Mae rhwydweithiau eraill yn dechrau gweld a ellir alinio amserlenni a'r cwricwlwm ymhellach. Er enghraifft, mae rhai yn ystyried strwythur mwy radical i'r cwricwlwm er mwyn cynnal dewisiadau ar ddau ddiwrnod penodedig ac addysgu'r Craidd Dysgu, gan gynnwys y gofynion statudol, ar y tri diwrnod arall.

53 Lle nad yw ysgolion wedi ceisio cysoni amserlenni, mae gweithgareddau ar y cyd wedi creu problemau ychwanegol. Er enghraifft, mewn un ysgol nad yw wedi mabwysiadu amserlen gyffredin, nid oes modd i ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer gweithgareddau ar y cyd gymryd rhai cyrsiau, tra bydd eraill yn colli rhai gwersi yn eu dewisiadau. I'r gwrthwyneb, nid yw ysgol llawer mwy sydd wedi cysoni amserlenni â'i phartneriaid yn cael yr un anawsterau. Nid yw cysoni amserlenni yn syml. Mae gwneud iddo weithio'n gofyn am nid yn unig ymrwymiad a phenderfyniad i ddod o hyd i ateb, ond parodrwydd i gyfaddawdu hefyd. Yn ogystal, mae trafodaethau ynglŷn ag amserlennu cyffredin yn ehangu'n gyflym i feysydd eraill fel trafnidiaeth, staff a chyllid, gan olygu bod y broblem yn fwy cymhleth ac yn anos eu datrys. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae llawer o enghreifftiau o ysgolion a cholegau sy'n goresgyn y broblem hon am fod ganddynt ewyllys i wneud hynny.

54 Er i ehangu cyrsiau galwedigaethol ddechrau o'r hyn a oedd yn cael ei adnabod yn y gorffennol yn 'gwricwlwm amgen', mae'r angen am y cyrsiau hyn yn parhau, a chafwyd gwelliannau pellach iddynt. Erbyn hyn, mae'r cyrsiau yn darparu profiad mwy cydlynol a chytbwys, ac maent yn fwy tebygol o arwain at gymhwyster. Ceir y ddarpariaeth orau lle mae rhwydweithiau wedi canolbwyntio ar y dysgwyr hynny nad ydynt yn elwa ar y cwricwlwm cyfnod allweddol 4 traddodiadol, neu y nodwyd eu bod yn debygol o ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETau). Mewn un rhwydwaith, mae'r ysgol arbennig yn gweithio gyda nifer o ysgolion y brif ffrwd i sefydlu cwrs pum-niwrnod-yr-wythnos a gynhelir mewn wyth lleoliad ledled yr ardal. Mae'r gweithgaredd yn arwain at nifer o gymwysterau ar lefel mynediad i lefel 3 RhCA a CGC.

55 Datblygiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4 yw'r cynllun peilot yn Llwybrau Dysgu yn y Gwaith a gychwynnodd mewn saith rhwydwaith ym mis Medi 2007. Mae'r cynlluniau yn cynnwys cydweithio â busnesau ym meysydd adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, peirianneg, rheoli chwaraeon, arwain a hyfforddi, a'r diwydiant ceir. Yn ogystal â chael y cwricwlwm sylfaenol, bydd dysgwyr yn ymgymryd â lleoliad gwaith rhwng 20 a 50 niwrnod, ac yn astudio am gymhwyster galwedigaethol ar lefel 2. Anelir y fenter at ddysgwyr galluog a llawn cymhelliant, ac mae'n caniatáu iddynt astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, nid yn unig yn yr ysgol, ond hefyd yn y coleg a'r gweithle. Nodir un enghraifft o'r fath isod.

**Astudiaeth achos 6**

Mae un ysgol ac un coleg yn cydweithio i gyflwyno cwrs Llwybr Dysgu yn y Gwaith mewn peirianneg, mewn cydweithrediad â'r cyngor sgiliau sector, SEMTA. Rhoddwyd arweiniad a gwybodaeth o ansawdd da am y cwrs i ddysgwyr, a gwnaethant gymryd rhan mewn noson agored iddyn nhw a'u rhieni yn y coleg lle addysgir y cwrs. Mae'r coleg yn cyflawni safonau uchel iawn yn ei gyrsiau peirianneg, ac wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol â nifer o weithgynhyrchwyr, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chynhyrchion hynod ddatblygedig a thechnegol. Mae pymtheg dysgwr yn cymryd rhan yn y cwrs, a chaiff pob un gyfle i ennill cymhwyster lefel 2. Caiff dysgwyr eu haddysgu gan arbenigwyr o'r coleg mewn safle pwrpasol ac uchel ei safon, am fore a phrynhawn bob wythnos. Byddant hefyd yn dilyn yr hyn sy'n gyfwerth ag 20 niwrnod o leoliadau gwaith mewn un neu fwy o'r busnesau cysylltiedig. Yn ôl yn yr ysgol, mae'r dysgwyr yn dilyn cwrs TGAU cyflenwol mewn dylunio cynnyrch, ac mae'r ddwy elfen yn perthyn yn agos. Mae dysgwyr yn frwdfrydig am y cwrs a'r cyfleoedd a gynigir ganddo ar gyfer dysgu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar waith. Maent yn llawn cymhelliant symbyledig ac o'r farn bod y cwrs o fudd mawr iddynt. Yn benodol, maent yn teimlo bod y cwrs yn rhoi profiad sylweddol iddynt o weithio mewn cyfleusterau arbenigol mewn amgylchedd coleg ac mewn busnes go iawn. Maent yn awyddus i werthfawrogi'r gofynion a'r safonau y mae eu hangen mewn gwaith galwedigaethol o'r math hwn.

56 Mewn rhai rhwydweithiau, mae cyrsiau 'blasu' yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth, er na fydd gan bob dysgwr mewn ardal benodol yr un mynediad atynt. Mae cyrsiau blasu yn bwysig am y gallant roi i ddysgwyr ychydig o brofiad cyfyngedig o gyrsiau sy'n newydd iddynt. Mae'r cyrsiau gorau yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad dilys, realistig a chytbwys o sut beth fydd y cwrs. Os yw'n ddarparwr gwahanol i'r un y maent yn ei fynychu ar y pryd, mae hyn yn cynnwys ymweld â lleoliad y cwrs. Wrth wneud hynny, byddant nid yn unig yn cael profiad o'r arddulliau addysgu a dysgu a geir ar y cwrs, ond hefyd o fod yn ddysgwyr yn y sefydliad hwnnw, fel yr amlinellir isod.

**Astudiaeth achos 7**

Mae un rhwydwaith wedi trefnu cyfres o brofiadau, a fydd yn para wythnos, ar gyfer tua 60 o ddysgwyr a chanddynt ddyheadau cyfyngedig o ran dilyniant i addysg bellach neu hyfforddiant. Maent yn profi cyfres o weithgareddau mewn meysydd galwedigaethol dethol a drefnwyd yn dda ac sy'n eu symbylu, a hynny dros dri diwrnod yn y coleg addysg bellach lleol, ac yn treulio diwrnod arall yn profi addysg yn y brifysgol leol. Ar y diwrnod olaf, mae dysgwyr yn rhoi cyflwyniad ar eu profiadau i'r dysgwyr eraill ar y rhaglen.

57 Mae rhai rhwydweithiau wedi trefnu eu sesiynau blasu trwy glybiau dydd Sadwrn, clybiau ar ôl ysgol, fel y 'clwb adeiladu', neu weithgareddau hanner tymor. Mae un rhwydwaith wedi sefydlu 'fan galwedigaethol', a disgrifir ei swyddogaeth isod.

**Astudiaeth achos 8**

Mae gan un rhwydwaith fan â chyfarpar arbennig i gyflwyno sesiynau blasu, cyrsiau lefel 1 a lefel 2 ym maes adeiladu i ddysgwyr cyfnod allweddol 4 ym mhob ysgol yn yr ardal. Staff y coleg sy'n cyflwyno'r sesiynau. Ar ôl mireinio'r model, y bwriad yw estyn y cysyniad i feysydd galwedigaethol eraill. Yn ogystal, defnyddir y fan galwedigaethol ar gyfer ysgolion arbennig, rhaglenni cymunedol, canolfannau ieuenctid a phryd bynnag bod galw am gyflwyno cyrsiau medrau syml.

58 Mae rhai rhwydweithiau wedi trefnu gweithgareddau i herio ystrydebu rhyw wrth ddewis opsiynau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys defnyddio cyrsiau blasu penodol, fel 'merched i faes adeiladu neu beirianneg' a 'bechgyn i faes y proffesiynau gofal', i wrthbwyso effeithiau syniadau rhagdybiol ynglŷn â pha ddewisiadau sy'n briodol i fenywod a gwrywod.

**Ehangu dewisiadau addysg ôl-16**

59 Gall dysgwyr ym mhob maes ddewis o ystod eang iawn o ddewisiadau cyffredinol a galwedigaethol sy'n cynnwys pob maes a lefel. Gall bron pob dysgwr ddewis cyrsiau sy'n caniatáu iddo ddilyn ei lwybrau dysgu dewisedig. Mae gan ddysgwyr 16 oed ystod eang o ddewisiadau oddi wrth amrywiaeth eang o ddarparwyr. Er enghraifft, mewn un rhwydwaith, gall dysgwyr ddewis o fwy na 40 o gyrsiau safon Uwch a thua 70 o gyrsiau galwedigaethol mewn un coleg yn unig yn y rhwydwaith, yn ogystal â chael mynediad at golegau eraill a chanddynt arbenigeddau ychwanegol ac ystod eang o ddarpariaeth dysgu yn y gwaith.

60 Y brif ystyriaeth i ddysgwyr 16 oed yw nid cael mynediad at y math a'r lefel cywir o gyrsiau, ond ymhle i barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant, ac ansawdd y wybodaeth a roddir iddynt ynglŷn â'u dewisiadau ôl-16. Mae gan ran fwyaf y dysgwyr fynediad at eu hawl i addysg ôl-16 cyhyd â'u bod yn dod i wybod am y dewisiadau sydd ar gael iddynt a'u bod yn barod i deithio. Yn rhan fwyaf yr ardaloedd yng Nghymru, mae dysgwyr yn dewis rhwng aros yn yr ysgol neu symud i goleg neu ddysgu yn y gwaith.

61 Yn aml, bydd gan ddysgwyr mewn chweched dosbarthiadau ysgolion ddewis cyfyngedig a chul o gyrsiau, yn arbennig os bydd y chweched dosbarth yn fach. Ychydig iawn o gyfleoedd a roddir iddynt hefyd i gymysgu cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Yn rhan fwyaf yr achosion, mae eu gallu i ddatblygu llwybrau dysgu hyblyg yn gyfyngedig iawn. O bryd i'w gilydd, gellir goresgyn y broblem hon pan fydd ysgolion yn cydweithio â darparwyr eraill, ond nid yw hyn yn wir yn achos rhan fwyaf y dysgwyr.

62 Yn aml, i'r gwrthwyneb i ysgolion 11 i 16, nid yw ansawdd ac amhleidioldeb yr arweiniad a'r cyngor y mae ysgolion 11 i 18 yn eu rhoi i ddysgwyr yn ddigon da. Mae llawer o ysgolion yn annog dysgwyr, naill ai'n eglur neu'n ymhlyg, i barhau â'u hastudiaethau yn y chweched dosbarth am fod y system ariannu wedi'i seilio ar nifer y dysgwyr sy'n ymrestru. Nid ydynt yn annog dysgwyr i geisio'r safbwyntiau sy'n cyd-fynd orau â'u hanghenion a'u galluoedd, hyd yn oed os yw'r dewisiadau hynny wedi'u lleoli gyda darparwr arall.

63 Mae cystadleuaeth uniongyrchol rhwng darparwyr ôl-16 yn amlwg o hyd. O ganlyniad i waith y rhwydweithiau o ran ehangu dewislenni, mae'r sefyllfa wedi gwella ers i Estyn adrodd ar gydweithio rhwng chweched dosbarth ysgolion a cholegau yn 2006, ond mae'r patrwm yn parhau'r un fath i bob pwrpas. Gyda rhai eithriadau, mae cydweithio'n rhywbeth ymylol, ac nid yw'n effeithio ar batrymau astudio'r brif ffrwd ar gyfnod ôl-16. Yn rhan fwyaf yr achosion yng nghyfnod ôl-16, yn gyffredinol, nid oes fawr o gydweithio ar gyfer ychydig o ddysgwyr, a hynny mewn ystod gul o gyrsiau. Mae'r prif resymau dros gyn lleied o gydweithio yn parhau'n gyson â'r hyn a adroddwyd gennym yn 2006. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys cystadleuaeth am ddysgwyr, ymddiriedaeth gyfyngedig rhwng darparwyr, ac anawsterau o ran trafnidiaeth a threfnu amserlenni. Yn 2006, fe wnaethom farnu bod aildrefnu darpariaeth mewn ardal, yn arbennig mewn ardaloedd daearyddol bach, yn ffordd well o wella effeithlonrwydd. Byddai manteision i ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth trwy ddod â chweched dosbarthiadau ynghyd mewn ardaloedd mwy gwledig hefyd. Efallai y byddai eithriadau yn cynnwys darparwyr o ansawdd uchel eithriadol neu ddarparwyr addysg Gymraeg mewn ardaloedd Saesneg, lle nhw yw'r unig ddarparwyr.

64 Mae nifer fach ond cynyddol o drefniadau cydweithio datblygedig ar gyfnod ôl-16, y mae rhai ohonynt yn drefniadau hirsefydlog. Mae'r rhain yn cynnwys cwricwlwm ôl-16 cyffredin mewn grŵp o ysgolion ac, yn yr enghreifftiau gorau, maent yn cynnwys colegau hefyd. Mae ychydig iawn ohonynt hefyd yn cynnwys darparwyr dysgu yn y gwaith. I raddau amrywiol o ffurfioldeb, mae rhai rhwydweithiau wedi sefydlu clystyrau o ysgolion sydd naill ai'n agos yn ddaearyddol neu sydd â'r un cymeriad, fel ysgolion Cymraeg neu ysgolion enwadol. Dyma rai enghreifftiau da:

**Astudiaeth achos 9**

Mae gan un bartneriaeth, sy'n cynnwys pedair ysgol, amserlen a strwythur dewisiadau cyffredin. Mae'n cyflwyno un prosbectws i ddysgwyr, ac mae ganddi broses sefydlu gyffredin. Mae'r bartneriaeth yn dadansoddi'r hyn y mae dysgwyr yn dymuno ei wneud ac, ar sail y nifer, yn penderfynu sawl grŵp addysgu y bydd yn eu cynnal cyn eu dyrannu i ysgolion ar sail meini prawf ansawdd. Yn y modd hwn, caiff rhai pynciau eu cyflwyno ym mhob un o'r pedair ysgol, a chaiff eraill eu cyflwyno mewn un ysgol yn unig. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae nifer y dysgwyr sy'n parhau mewn addysg a hyfforddiant wedi cynyddu, yn yr un modd â nifer y pynciau a gynigir a maint cyfartalog dosbarthiadau. Mae'r bartneriaeth wedi'i threfnu'n dda ac mae'n cynnwys strwythur rheoli, memorandwm cyd-ddealltwriaeth, a system drafnidiaeth integredig. Mae cytundeb ariannol y bydd pob ysgol yn talu'r costau ac na fyddant yn bilio ei gilydd.

**Astudiaeth achos 10**

Mae partneriaeth arall yn cynnwys coleg addysg bellach yn ogystal â thair ysgol. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu amserlen gyffredin a gall dysgwyr ddewis o ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Mae gan y ddarpariaeth systemau datblygedig ar gyfer rheoli, ariannu a sicrhau ansawdd. Trwy gydweithio, mae'r bartneriaeth wedi cronni adnoddau er mwyn iddi allu gwella'r safleoedd a'r offer arbenigol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol. Er y gallai cyfleuster penodol fod wedi'i leoli ar safle penodol, mae ar gael i'r sefydliadau eraill yn y bartneriaeth. Mae'r trefniant partneriaeth nid yn unig yn ehangu ystod y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr, ond hefyd yn eu darparu mewn ffordd gost-effeithiol, gydag ychydig iawn o ddosbarthiadau yn cynnwys llai na 10 o ddysgwyr. Mae llawer o hyblygrwydd yn y cwricwlwm sy'n caniatáu i ddysgwyr ddilyn dewisiadau ychwanegol ar ôl amser ysgol, er enghraifft, ymuno â dysgwyr hŷn mewn dosbarth nos seicoleg safon Uwch. Mae dysgwyr yn croesawu'r cyfle i gymryd cyrsiau sy'n cyd-fynd â'u hanghenion a'u dyheadau. Maent yn canfod bod y trefniadau yn gweithio'n dda ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â dysgwyr eraill o ddarparwyr eraill.

65 Bu rhan fwyaf yr ehangu ar lefel ôl-16 er mwyn darparu cyrsiau lefel 2 i ddysgwyr o allu is neu ganolig. Yn aml, caiff y rhain eu cyflwyno mewn ysgolion gyda chefnogaeth colegau addysg bellach. Mae'r astudiaeth achos isod yn disgrifio sut y defnyddir lleoliad dysgu yn y gwaith.

**Astudiaeth achos 11**

Mewn un rhwydwaith, caiff dysgwyr ôl-16 gyfle i ymestyn eu hastudiaethau i gynnwys cymwysterau lefel 1 a 2 mewn lleoliad dysgu yn y gwaith. Rhaid i ddysgwyr ddilyn proses gais gadarn ar gyfer pob un o'r naw maes galwedigaethol a gynigir. Erbyn hyn, mae ymgeiswyr llwyddiannus yn mynychu eu lleoliad hyfforddiant dysgu yn y gwaith am ddau ddiwrnod a hanner bob wythnos, ac yn ennill medrau gwerthfawr drwy hyfforddiant 'yn y swydd'. Mae pob dysgwr yn mwynhau cwrdd â dysgwyr o ysgolion eraill a chymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi cyffrous. Mae'r gweithgaredd yn uniongyrchol gysylltiedig ag angen economaidd lleol, ac mae'n caniatáu i ddysgwyr gyfuno astudiaethau ysgol â dysgu yn y gwaith.

66 Mae ehangu cyrsiau yng nghyfnod ôl-16 yn gymharol gyfyngedig o'i gymharu â chyfnod allweddol 4. Cafwyd cynnydd yn narpariaeth rhai cyrsiau galwedigaethol ar lefel 2. Fel arfer, bydd y rhain yn denu dysgwyr na wnaethant ennill graddau TGAU digon uchel i ddechrau ar gyrsiau lefel 3. Yn aml, mae'r cyrsiau yn para am flwyddyn ac yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i gyrsiau lefel 3 neu gyflogaeth. Yn ogystal, cafwyd cynnydd mewn cyrsiau safon Uwch sy'n ychwanegol at ystod arferol y pynciau a gynigir mewn chweched dosbarthiadau neu rai sy'n denu llai o ddysgwyr, fel y gyfraith a chymdeithaseg. Dim ond rhai ysgolion sy'n ehangu nifer y cyrsiau galwedigaethol ar lefel 2, ond heb safon uchel y cyfleusterau na'r staff y mae eu hangen i'w cyflwyno'n llwyddiannus.

**Defnyddio technolegau newydd**

67 Yn gyffredinol, nid yw technolegau newydd, fel rhith-amgylcheddau dysgu (RhAD[13]) a fideogynadledda, yn cael llawer o effaith hyd yn hyn ar ehangu dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr.

68 Mae llawer o rwydweithiau yn ehangu eu gwaith ym maes RhAD trwy gytuno ar lwyfannau cyffredin a datblygu cydweithio rhwng darparwyr. Ar yr adeg hon, mae'r rhan fwyaf yn ymwneud â hyfforddi staff mewn rhwydweithiau, yn aml gan ddefnyddio profiad colegau sydd ag arferion hirsefydlog o ddefnyddio RhAD. Yn aml, mae ysgolion a cholegau yn gyffrous ynglŷn â photensial RhAD. Ystyrir ei fod yn arwain at waith mwy cydweithredol rhwng darparwyr, ac at rannu adnoddau dysgu cyffredin. Er enghraifft, mae un rhwydwaith yn sefydlu gweinyddwr ledled y rhwydwaith i gadw deunyddiau dysgu a rennir. Mae RhAD hefyd yn cyfrannu at ddatblygu mathau newydd o addysgu a dysgu, yn arbennig rhai sy'n hyrwyddo mwy o annibyniaeth ymhlith dysgwyr trwy fynediad haws at ddeunyddiau, gweithgareddau a chefnogaeth. Mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn, yn y pen draw, yn cynyddu hyblygrwydd i ddysgwyr, ond mae datblygiadau ar gyfnod cynnar o hyd. Mae'n debygol hefyd y bydd y gwaith yn cyfrannu at ddatblygu llawer o agweddau ar Lwybrau Dysgu 14-19 ac, yn arbennig, y Craidd Dysgu. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o effeithio rhyw lawer ar ehangu'r ddewislen i gynyddu dewis y dysgwr.

69 Yn ogystal, ceir defnydd cynyddol ar fideogynadledda i gynyddu nifer y cyrsiau yng nghyfnod ôl-16, ond mae ei effaith wedi'i chyfyngu i nifer fach o gyrsiau safon Uwch ychwanegol. Mae ei effaith i'w weld fwyaf yn y ffordd y mae'n cynyddu nifer y cyrsiau ôl-16 mewn ysgolion gwledig bach ac ysgolion Cymraeg. Mae fideogynadledda ar ei fwyaf llwyddiannus lle mae dysgwyr yn yr ysgolion sy'n ei ddefnyddio yn cael cefnogaeth ac arweiniad a gynlluniwyd yn dda, a lle ystyrir y fideogynadledda yn rhan yn unig o raglen ehangach sy'n cynnwys defnyddio RhAD a dosbarthiadau tiwtorial. Yn benodol, mae dysgwyr yn elwa fwyaf lle mae ganddynt o leiaf ychydig o gysylltiad wyneb-yn-wyneb ag arbenigwyr pwnc sy'n ymwneud â'r cyrsiau.

[13] Systemau sy'n defnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd i gefnogi ystod o sefyllfaoedd dysgu, o ddosbarthiadau confensiynol i ddysgu all-lein ac ar-lein, yw Rhith-amgylcheddau Dysgu (RhAD).

## Sicrhau dewis ehangach a hyblygrwydd

70 Bwriad dewislenni yw sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at y cyrsiau y mae eu hangen arnynt i fodloni eu hanghenion, eu diddordebau a'u galluoedd. Mae rhwydweithiau wedi gwneud llawer o gynnydd yn hyn o beth, ac mae llawer o enghreifftiau o gynyddu'r dewis o gyrsiau, yn arbennig dewisiadau galwedigaethol o ganlyniad i fwy o gydweithio. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau ar gyfnod cymharol gynnar o hyd, ac mae llawer o waith yn ofynnol cyn gallu cyflawni'r canlyniadau a ragwelir gan Lwybrau Dysgu 14-19. Mae rhan nesaf yr adroddiad hwn yn ystyried rhai o'r materion a fydd yn dylanwadu ar ba mor dda y gall rhwydweithiau a darparwyr unigol sicrhau bod dewis ehangach o gyrsiau a mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr o ran lle gallant astudio.

### Arweinyddiaeth

71 Yn anochel, gwelir y gwaith gorau mewn rhwydweithiau a chanddynt arweinwyr a rheolwyr effeithiol. Mae hyn yn dibynnu nid yn unig ar arweinyddiaeth uchel ei ansawdd gan y cydlynydd, ond hefyd ar i ba raddau y mae gwaith y rhwydwaith yn rhan o gyd-destun ehangach o ddatblygiadau perthnasol yn yr ardal leol. Mae'r rhwydweithiau gorau hefyd yn dibynnu ar ansawdd yr arweinyddiaeth mewn darparwyr unigol.

72 Rhaid i rwydweithiau fod yn gysylltiedig â'r cyrff strategol allweddol yn yr ardal ac, yn arbennig, rhai a chanddynt ddylanwad ar ffrydiau cyllid. Fel arfer, mae hyn yn golygu, yn ogystal â'r gwaith gweithredol a wneir gan y rhwydwaith, bod yn rhaid cael grŵp cyffredinol sy'n gallu cysylltu gwaith y rhwydwaith â gweithgareddau eraill, fel dysgu gydol oes a datblygiad economaidd. Ar brydiau, hyd yn oed lle ceir grŵp cyffredinol, nid yw'r holl randdeiliaid wedi'u cynrychioli'n llawn. Er enghraifft, efallai y bydd y corff strategol yn cynnwys pennaeth y coleg addysg bellach a'r prif swyddog addysg, ond na fydd yn cynnwys penaethiaid ysgolion uwchradd.

73 Mae'r rhwydweithiau mwyaf llwyddiannus yn cael eu harwain gan gydlynwyr medrus a hynod gymwys. Mae gan y rhain y medrau a'r sensitifrwydd sy'n ofynnol i arwain a datblygu cydweithio. Yn ogystal, mae ganddynt statws ac awdurdod sy'n sicrhau eu bod yn ennill ymddiriedaeth a hyder darparwyr. Yn y rhwydweithiau hyn, mae prosesau a systemau a ddeellir yn dda ar gyfer datblygu a chynhyrchu cynlluniau datblygu eglur, penodol a phwrpasol, fel y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (CDRhB). Mewn rhai, mae gan y cydlynydd systemau cymorth wedi'u trefnu'n dda. Er enghraifft, mae un ardal wedi sefydlu 'Uned 14-19' i ddatblygu'r gwaith hwn.

74 Mae angen arweinyddiaeth oddi wrth y darparwyr unigol hefyd. Rhaid i'r arweinwyr hyn fod â dealltwriaeth a gwerthfawrogiad eglur o Lwybrau Dysgu 14-19. Fodd bynnag, nid oes ganddynt weledigaeth eglur bob tro o sut y gallant ddatblygu'r ddarpariaeth hon. Yn benodol, mae gormod o arweinwyr nad ydynt yn rhoi digon o sylw i hawl dysgwyr a'r angen i ddysgwyr gynllunio a chyflawni eu llwybrau dysgu unigol. Dim ond ychydig ysgolion sy'n defnyddio'r grid Llwybr Dysgu Unigol a nodir yn Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II i gynllunio hyn. Nid yw llawer o ysgolion yn ddigon cyfrifol am gyflawniadau pob dysgwr. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhai ysgolion 11 i 18 lle'r brif ystyriaeth yw sicrhau bod digon o ddysgwyr yn aros

ymlaen yn y chweched dosbarth. Er bod ysgolion yn darparu gwybodaeth am nifer y dysgwyr sy'n gadael yn 16 oed heb gymhwyster, ychydig iawn ohonynt sy'n adrodd fel mater o drefn ar y nifer sy'n dod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

75 Yn ogystal, rhaid i ddarparwyr unigol gydweithio i raddau hwy a cheisio magu hyder ac ymddiriedaeth â darparwyr eraill. Mae hyn yn anodd mewn sefyllfa lle mae ariannu yn dibynnu ar nifer y dysgwyr y gall darparwr eu denu. Fodd bynnag, mae rhai darparwyr yn gweld bod cydweithio yn ganolog i'w sefydliadau. Mae un coleg wedi penodi pennaeth cynorthwyol i arwain ynghylch addysg 14-19 ac mae un ysgol wedi pennu bod 'dysgu trwy bartneriaeth' yn un o'i dri nod craidd.

## Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

76 Mae cydweithio yn galw am fedrau newydd ac anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cydnabod bod angen hyfforddiant a chefnogaeth well i ddatblygu'r medrau rhwydweithio, cyfathrebu a thrafod y mae eu hangen wrth weithio gydag eraill. Mae'n debygol mai ennill a datblygu'r medrau sy'n ofynnol i arwain a chyfrannu at bartneriaethau a gwasanaethau estynedig fydd y gofyniad hyfforddiant pwysicaf yn y dyfodol. Mae ysgolion yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r nifer o heriau y maent yn eu wynebu. Fodd bynnag, mae'n anodd i hyd yn oed y gorau yn eu plith wneud cynnydd sylweddol pellach i ddelio â'r heriau anoddaf ar eu pennau eu hunain. Mae'r heriau'n cynnwys gwella canlyniadau, disgyblaeth a phresenoldeb, bodloni gofynion dysgwyr a chanddynt ystod eang o anfanteision, delio â gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru, a delio â thangyflawni. Os yw ysgolion i fodloni'r heriau hyn, rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth â'u cymunedau lleol, nifer o wasanaethau cymorth, ac ysgolion, colegau a darparwyr eraill.

77 Y brif her i arweinwyr, felly, yw dangos y math o arweinyddiaeth a fydd yn dod â'r fenter Llwybrau Dysgu 14-19 yn realaeth. I wneud hyn yn effeithiol, bydd yn rhaid iddynt roi'r gorau i ychydig o'u hymreolaeth a bod yn barod i gyfaddawdu, ond mae llawer yn annhebygol o wneud hyn o'u gwirfodd heb newid eu meddyliau'n sylweddol.

78 Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn her sylweddol i ysgolion sy'n dymuno parhau i gynnig pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol hyd at safon Uwch, a hynny wrth geisio ehangu'r ddarpariaeth alwedigaethol a gynigir ganddynt. Mae ar gyrsiau galwedigaethol angen staff ychwanegol ac, yn aml, cyfleusterau arbenigol newydd. Bydd yn rhaid i arweinwyr ddefnyddio modelau adnoddau a staff mwy hyblyg, a bod yn barod i rannu cyllid craidd â'u partneriaid.

79 Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli a llywodraethu yn cefnogi gwaith mwy cydweithredol. Nid oes unrhyw enghreifftiau o ddarparwyr yn cydweithio fel cydffederasiwn lle:

- mae un sefydliad yn goruchwylio ac yn cyfarwyddo gwaith ar draws bob sector;
- ceir cyllidebau a rennir neu a gronnir;
- ceir trefniadau cyfreithiol eglur gan gynnwys, er enghraifft, contractau, memorandwm dealltwriaeth a/neu gytundebau lefel gwasanaeth ac un corff rheoli unigol;

- mae darparu unedau neu gyrsiau wedi'i resymoli ar draws darparwyr er mwyn osgoi dyblygu dianghenraid, neu i wella hyfywedd a sicrhau gwerth gwell am arian;

- mae darparwyr yn rheoli syniadau a phenderfyniadau yn gyfartal, ac yn rhannu cyfrifoldebau; a'r

- cydffederasiwn, yn hytrach na'r sefydliad unigol, sy'n adrodd ynghylch canlyniadau arholiadau.

80 Mae tensiwn rhwng yr angen i gynllunio ar hyd ardal a'r ffaith bod sefydliadau unigol yn cael eu hariannu a'u llywodraethu yn annibynnol ar ei gilydd. Mae nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd yn cynyddu, ac mae'n debygol y bydd yn dyblu mewn rhai ardaloedd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn golygu bod y refeniw sydd ar gael i sefydliadau unigol yn debygol o ostwng ac y bydd yn ofynnol dod o hyd i ffyrdd o wneud arbedion. Mae hyn yn her ychwanegol i arweinwyr sy'n ceisio cynnal ystod bresennol y dewisiadau. Mae'n debygol o fod yn arbennig o anodd cynnig mwy o ddewis gyda llai o arian heb resymoli'r ddarpariaeth a sicrhau gweithio gwell mewn partneriaeth ar hyd ardal.

81 Er y cafwyd llawer o ddatblygiadau diddorol a gwerthfawr o ran ehangu dewislenni yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu hyn yn bennaf yn sgil cyllid grant ychwanegol yn hytrach na thrwy ddefnyddio cyllid y brif ffrwd. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y gellir cynnal y ddarpariaeth hon ar ôl i'r grantiau ddod i ben. Yn ogystal, darparwyd nifer o gyfleusterau galwedigaethol uchel eu hansawdd gan y rhwydweithiau, ond mae ansicrwydd hefyd ynglŷn â phwy sy'n berchen arnynt a phwy all gael mynediad atynt wedi i'r cyllid grant ddod i ben, neu petai'r rhwydweithiau yn newid eu dibenion a'u strwythurau yn y dyfodol.

82 Nid yw'r sefyllfa yn cael ei wella gan y ffordd y mae ysgolion a cholegau yn cael eu hariannu ar hyn o bryd, am nad yw hyn yn cynorthwyo cydweithio. Mae dwy ffrwd ariannu wahanol i ddysgwyr sy'n iau na 16 oed a rhai sy'n hŷn na 16, a gall hyn amharu ar gynllunio ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Yn ogystal, mae dwy system grant sy'n deillio o ddwy adran wahanol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r system gyllido bresennol yn gymhleth, felly, a gall ei biwrocratiaeth fod yn rhwystredig ar lefel leol.

## Gwella ansawdd

83 Wrth wella dewislenni, naill ai drwy estyn y ddarpariaeth ar ei ffurf bresennol neu, yn fwy tebygol, trwy resymoli neu ail-ffurfweddu, bydd yn ofynnol ystyried ansawdd y ddarpariaeth. Mae'n debygol y bydd y broses hon yn cael ei chefnogi gan y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud wrth ddatblygu fframwaith ansawdd a rôl 'hyrwyddwyr ansawdd' ar gyfer pob rhwydwaith.

84 Bydd yn rhaid i rwydweithiau bennu dangosyddion perfformiad ledled y rhwydwaith, fel ymrestru, cwblhau a chyrhaeddiad. Bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio mesuriadau gwerth ychwanegol a chyfraddau cynnydd ar gyfer y gwahanol gyrsiau a gynigir. I roi hyn ar waith, rhaid defnyddio systemau hunanarfarnu cyffredin a chanddynt ddulliau cyson o ran sut a phryd y cynhelir arfarniadau. Er enghraifft, gallai'r system nodi

dulliau cyffredin o gasglu tystiolaeth, gan gynnwys barn dysgwyr ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

85 Ar ôl sefydlu'r systemau hyn, bydd yn bwysig i rwydweithiau ddefnyddio'r wybodaeth i ddod i gasgliadau ynglŷn â gwerth am arian y ddarpariaeth yn eu hardal. I wneud hyn, bydd yn rhaid i'r wybodaeth gynnwys cost cyrsiau unigol, maint grwpiau addysgu, y ddarpariaeth a ddyblygir ac i ba raddau y mae rhan 11 i 16 ysgol yn cymorthdalu chweched dosbarthiadau yn yr ysgolion hynny sy'n eu cynnwys. Bydd yn rhaid i rwydweithiau sefydlu meini prawf eglur a gwrthrychol ar gyfer penderfynu ar hyfywedd cyrsiau. Mewn egwyddor, dylai'r rhwydwaith geisio datblygu'r ddarpariaeth sy'n dda ac ymyrryd i fynd i'r afael ag unrhyw tanberfformio. Mae hyn yn debygol o fod yn anodd i rwydweithiau nad oes ganddynt unrhyw bwerau cyfreithiol na rheolaeth dros ddarparwyr.

**Elfennau allweddol eraill o Lwybrau Dysgu 14-19**

86 Mae'n annhebygol y cyflawnir dewis ehangach a hyblygrwydd oni bai y caiff elfennau allweddol eraill Llwybrau Dysgu 14-19 eu cyflwyno hefyd. Dylai'r Craidd Dysgu ddarparu'r medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r dulliau angenrheidiol y mae eu hangen i gael mynediad at unrhyw ddewisiadau cwrs sydd ar gael ac i wneud y defnydd gorau ohonynt. Yn benodol, mae datblygu medrau allweddol yn hanfodol bwysig, nid yn unig yn y cyd-destun hwn, ond hefyd o ran bodloni bwriadau eang Llwybrau Dysgu 14-19 ac adroddiadau Leitch ac Webb os caiff eu hargymhellion eu rhoi ar waith. Disgwylir i'r Hyrwyddwr Dysgu chwarae rhan allweddol wrth helpu dysgwyr i nodi eu hamcanion a chynllunio eu llwybrau dysgu unigol. Rhan hanfodol o'r broses hon, ar y cyd â darparu addysg ac arweiniad gyrfaoedd, yw darparu arweiniad a chyngor sydd nid yn unig yn ymarferol ac yn realistig, ond hefyd yn ddiduedd. Yn ogystal, mae darparu cefnogaeth bersonol i'r dysgwyr hynny sydd ei hangen yn hanfodol i'w cadw i ymgysylltu ac i gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant.